**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

1 Ebrill 2022

Annwyl Jane,

Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Chwefror 2022, a oedd yn cynnwys cofnodion cyfarfod Grŵp Cydgysylltu'r Cynllun Setliad yr UE. Rydym yn croesawu'r wybodaeth hon a'ch ymrwymiad i rannu cofnodion cyfarfodydd y Grŵp i helpu i lywio ein gwaith am gyhyd ag y bydd yn cyfarfod.

Yn ein cyfarfod ar 21 Mawrth, gwnaethom drafod yr ystadegau diweddaraf sydd ar gael ar geisiadau i'r Cynllun gan ddinasyddion Ewropeaidd sy'n byw yng Nghymru, a gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad monitro wedi hynny. Rydym yn arbennig o ymwybodol o'r sefyllfa bresennol yn Wcráin o ganlyniad i ymosodiad Rwsia arni a nodwn ddatganiad y Prif Weinidog yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Mawrth, lle y dywedodd ei fod wedi gofyn i Brif Weinidog y DU ymestyn y dyddiad cau ar gyfer trwyddedau teulu o dan y Cynllun er mwyn helpu pobl sy'n ffoi Wcráin. Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn ag a fydd Llywodraeth y DU yn ymestyn dyddiad cau'r cynllun hwn y tu hwnt i 29 Mawrth a pha ohebiaeth bellach, os o gwbl, y mae Llywodraeth Cymru wedi'i chael â Llywodraeth y DU ar y mater hwn.

Yn gywir,



Jenny Rathbone
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol